# PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dydd Iau, 25 Ionawr 2024

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G.H. John (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
B.A.L. Roberts, C. Davies, K. Davies, M. Donoghue, A. Evans, W.T. Evans (yn lle B. Davies), M. James, H. Jones, D. Owen, F. Walters, P.T. Warlow, and J. Williams

**Hefyd yn bresennol - y Cynghorwyr:**
J.Tremlett, Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
A. Lenny, Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Yn bresennol fel <u>sylwedyddion</u> o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:**
Y Cynghorydd S. Pursey - Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Stryd
Y Cynghorydd C. Jordan - Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet
Y Cynghorydd R. Phillips - Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Sgiliau a Llesiant
T. Rees - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Yn bresennol o Fwrdd Iechyd Hywel Dda:**
Dr S. Richards - Arweinydd Meddygon Teulu, Gofal Canolraddol Sir Gaerfyrddin
I. Jameson - Ffisiotherapydd yn y Tîm Ymateb Acíwt
K White - Rheolwr Darparu Gwasanaeth

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Jones, Pennaeth Gwasanaethau Integredig dros dro
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
S. Nolan, Cyfrifydd Grŵp
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
C. Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd
J. Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
L. Brown, Rheolwr Datblygu, Cymunedau
K. Barlow, Uwch Reolwr-Anghenion Cymhleth a Throsglwyddo
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 1.15 yp**

[**SYLWER**: Am 1.05pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau eitemau 9, 10 ac 11 ar yr agenda. Penderfynwyd gohirio ystyried Eitemau 7 ac 8 ar yr Agenda tan y cyfarfod nesaf.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B. Davies.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2023, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld gorwariant o £9,740k ar y gyllideb refeniw. Dangosodd y prif amrywiadau ar gynlluniau cyfalaf amrywiant disgwyliedig o -£49k yn erbyn cyllideb net o £1,906k ar brosiectau gofal cymdeithasol, ac amrywiad o -£184k yn erbyn cyllideb net prosiectau'r Gwasanaethau Plant o £517k.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y gorwariant cyllidebol a ragwelir ar Wasanaethau Plant o bryder sylweddol i sefyllfa'r gyllideb gorfforaethol, ac wrth gydnabod hyn sefydlwyd gweithgor i ymchwilio a nodi camau cywirol lle bo hynny'n bosibl.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Mynegwyd pryder ynghylch cost ormodol staff asiantaeth mewn cartrefi preswyl a gofynnwyd pa fesurau diogel**u** oedd ar waith i sicrhau na fyddid yn dibynnu ar staff asiantaeth yn yr un modd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd swyddogion fod gweithgor wedi'i sefydlu i helpu i gael dealltwriaeth o'r gofynion gwaith. Y gobaith oedd y byddai gwelliant yn y sefyllfa ariannol yn amlwg yn yr adroddiad monitro nesaf. Gwnaed gwaith i sefydlu cronfa hyblyg fewnol o staff achlysurol ac, os bydd hyn yn llwyddiannus, byddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.
- Mewn ymateb i bryderon ynghylch y gorwariant o £9.7m a beth fyddai'r sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn, dywedwyd wrth y Pwyllgor, er bod y ffigur yn peri pryder, ei fod ar gyfer yr adrannau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn a bod y rhagolwg yn is yn gorfforaethol oherwydd y tanwariant yn Adran y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol. Nodwyd hefyd bod tanwariant o ran y Taliadau Cyfalaf. Unwaith eto, atgoffwyd y Pwyllgor fod y gwaith monitro yn mynd i'r afael â'r 'perfformiad gwirioneddol' yn seiliedig ar ddata hyd at ddiwedd mis Hydref a bod y

cyfrifwyr wedi gweithio'n agos gyda'r holl adrannau gwasanaeth i adolygu'r tueddiadau a'r meysydd lle mae gorwariant. Dywedwyd bod y cynnydd yn y defnydd o staff asiantaeth wedi'i nodi fel rhan o'r broses fonitro a nodwyd y byddai'r sefyllfa ariannol yn dirywio ymhellach oni bai bod camau unioni yn cael eu rhoi ar waith.

- Gan gyfeirio at Atodiad B, gofynnwyd beth oedd ystyr 'ffyrdd eraill o weithio'. Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar bapur gwyn ar ailgydbwyso gofal a chymorth a oedd yn ystyried sut yr oedd y broses gomisiynu yn cael ei chynnal gyda mwy o bwyslais ar liniaru methiannau yn y farchnad. Enghraifft o hyn fyddai datblygu mwy o gapasiti mewnol, a rhoddwyd enghraifft benodol sef cartref gofal Plas y Bryn a gaeodd y llynedd ac a gafodd ei brynu gan yr Awdurdod Lleol yn dilyn hynny. Nodwyd hefyd fod uchelgais i ddatblygu cyfleusterau plant mewnol i liniaru cost ormodol lleoliadau'r tu allan i'r sir.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y grant a dderbyniwyd ar gyfer Plant heb Gwmni Oedolyn sy'n Ceisio Lloches, dywedodd swyddogion fod yr arian a dderbyniwyd oddi wrth y Swyddfa Gartref yn incwm sy'n gysylltiedig â phob plentyn heb gwmni oedolyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2024/25 TAN 2026/27

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2024/25 i 2026/27 a oedd yn rhoi golwg gyfredol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/27. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcanion y swyddogion ynghylch gofynion gwariant, ac roedd yn rhoi ystyriaeth i'r setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023 - y dyddiad hwyraf yr oedd hwn erioed wedi cael ei ddarparu.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, pwysleisiwyd mai datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori. Yn unol â hynny, atgoffwyd Aelodau bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 a bod aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori yn ddiweddar, a oedd yn rhoi cyfle i ddadansoddi a chael eglurhad ynghylch gwahanol agweddau ar y gyllideb.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod disgwyl i'r setliad terfynol gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2024 ochr yn ochr â chyllideb Llywodraeth Cymru, y diwrnod cyn i'r cyngor llawn gwrdd i gytuno ar y gyllideb derfynol.

Nododd yr adroddiad nad oedd unrhyw gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer y cynnydd mewn pensiynau Athrawon na Diffoddwyr Tân, gan nad oedd y mecanwaith hwn wedi'i roi ar waith eto rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru. Er y tybiwyd na fyddai hyn yn cael effaith ar y sefyllfa ariannu, ystyriwyd bod hyn yn risg sylweddol hyd nes y cadarnhawyd yn ffurfiol, gyda gwerth o tua £4m.

Dywedodd llythyr y Gweinidogion fod yr holl gyllid oedd ar gael wedi ei ddarparu, a bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol felly dalu'r costau megis cytundeb cyflog Athrawon Medi 2024, er nad oedd eglurder ynglŷn â'r hyn a dybiwyd.

Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn y dyfodol o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyflog athrawon (a osodwyd gan Lywodraeth Cymru), na chodiad cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (a osodwyd gan fargeinio cyflog cenedlaethol). Cydnabu Llywodraeth Cymru mai dyma'r setliad mwyaf heriol ers datganoli.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau y byddai Cymru yn derbyn £25m yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn yr hwb a dderbyniwyd gan gynghorau Lloegr er mwyn mynd i'r afael â'u hargyfwng ariannol. Y gobaith oedd y byddai peth o'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddosbarthu i Awdurdodau Lleol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:-

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y £2m a dynnwyd o gronfeydd wrth gefn ar gyfer Gwasanaethau Plant, rhoddwyd sicrwydd ei bod yn gywir i ddefnyddio'r cyllid hwn ac y rhagwelwyd y byddai cyflwyno cyfleusterau mewnol yn lleihau'r angen i fynd i'r farchnad ar gyfer lleoliadau trydydd parti. Ar sail hyn, disgwylid na fyddai angen rheolaidd am y cyfleuster tynnu i lawr hwn.
- Wrth gyfeirio at y Crynhoad Taliadau, cadarnhaodd swyddogion y cyfrifwyd bod y cynnydd cyfartalog mewn taliadau yn gynnydd o tua 10% a oedd yn ystyried bod cost darparu gofal yn y cartref wedi cynyddu'n sylweddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 Bod yr Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 – 2026/27 yn cael ei dderbyn;**

**6.2 Bod y Crynhoad Taliadau a nodir yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.**

## 6. INTEGREIDDIO YN SIR GAERFYRDDIN - DIWEDDARIAD SEFYLLFA AR WEITHREDU MEWN PERTHYNAS A BLAENORIAETHAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi datganiad safbwynt ar Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin ac yn benodol,

diweddariad ynghylch blaenoriaethau penodol a nodwyd i gyflwyno system gofal cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Yn dilyn cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, cytunodd yr aelodau i gefnogi datblygiad cynllun sy'n adeiladu ar ystod o fentrau. Roedd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghenion cymhleth a lluosog y cleifion yn hytrach na galluoedd y sefyllfa bresennol o ran darparwyr. Byddai'n ystyried yr effeithiau uniongyrchol y gallai newidiadau eu gwneud yn ogystal â chyflwyno model a fyddai'n ateb galw canolig a hirdymor pobl eiddil ac oedrannus.

Nododd yr Aelodau fod gwaith Integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen di-dor i'r cyhoedd. Nid oedd cynnydd ar integreiddio strategol ehangach wedi bod yr hyn a ragwelwyd y llynedd. Roedd pwysau ariannol sylweddol, newidiadau ar lefel Prif Weithredwr ac ad-drefnu ym maes Iechyd yn golygu bod cynnydd pellach o ran integreiddio'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn strategol yn annhebygol yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod Dr Sioned Richards (Arweinydd Meddygon Teulu, Gofal Canolraddol Sir Gaerfyrddin) ac Indeg Jameson (Ffisiotherapydd yn y Tîm Ymateb Acíwt) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a roddodd ddiweddariad a chyflwyniad i'r Pwyllgor ar y gwaith integredig a oedd yn cael ei wneud yn Hwb Porth y Dwyrain Sir Gaerfyrddin. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gan y tîm amlddisgyblaeth weledigaeth a nod a rennir i helpu pobl yn eu cartrefi ac i atal derbyniadau. Derbyniwyd atgyfeiriadau gan ysbytai, y gymuned a meddygon teulu. Arweiniodd y ffordd integredig o weithio at gleifion yn derbyn y lefel fwyaf priodol o ofal.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y model a'r heriau o ran cysylltu â meddygon teulu, dywedwyd bod y model yn gweithio'n dda ond bod angen gwneud mân addasiadau megis cynyddu nifer y gofalwyr. Nodwyd bod y tîm ar gael i ddarparu gwasanaeth adsefydlu i helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth ac nid i ddarparu gofal tymor hir.
- Pan ofynnwyd a oedd model tebyg ar waith mewn mannau eraill, nodwyd bod y model wedi'i ddyblygu gan awdurdodau eraill a bod y model wedi cael ei gydnabod fel arfer gorau. Roedd hefyd wedi derbyn gwobrau i gydnabod ei lwyddiant.
- Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch defnyddio gwelyau yn Nhŷ Pili Pala a'r gwahaniaeth rhwng hyd yr arosiadau yn Llanymddyfri a Dyffryn Aman, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr ysbytai cymunedol yn derbyn cleifion yr oedd angen iddynt aros am gyfnod hwy gan y byddai angen pecynnau gofal arnynt fel arfer. Nodwyd bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud ynghylch sut i ddefnyddio'r gwelyau hyn yn well.
- Mewn ymateb i bryder a godwyd ynghylch gwaith ar yr integreiddio strategol rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cynnydd wedi'i ohirio oherwydd pwysau ariannol sylweddol, newidiadau ar lefel Prif Weithredwr ac ad-drefnu o fewn y Bwrdd Iechyd ond nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ymrwymedig i ffyrdd o weithio integredig.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyllid a chyflogi staff ar gontractau dros dro, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod staff yn weithwyr parhaol. Nodwyd

bod peth o'r cyllid yn gyllid tymor byr ac yn achos pryder. Ni fyddai unrhyw arian ychwanegol i ddatblygu'r tîm ymhellach.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 7. STRATEGAETH ATAL AR GYFER SIR GAERFYRDDIN

Dywedodd swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor fod angen iddynt adael y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio rhoi sylw i'r adroddiad tan y cyfarfod nesaf ar 21 Mawrth 2024.**

## 8. CYMORTH CYMUNEDOL A SEIBIANNAU BYR I BLANT ANABL

Dywedodd Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor fod angen iddynt adael y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio rhoi sylw i'r adroddiad tan y cyfarfod nesaf ar 21 Mawrth 2024.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol.

- Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd
- Adroddiad Grŵp - Cyllideb y Gwasanaethau Plant

Ailadroddodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch peidio â chyflwyno Adroddiad Grŵp - Cyllideb Gwasanaethau Plant ond nododd fod rhywfaint o wybodaeth wedi'i darparu drwy'r broses ymgynghori ar y Gyllideb.

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 10. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Dywedodd y Pwyllgor yr hoffent ystyried yr Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol ynghylch Diogelu yn y cyfarfod nesaf os yn bosibl.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 21 Mawrth 2024.**

## 11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED RHAGFYR, 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2023 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**